OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 3377

## Rheoliadau Ensymau Bwyd (Cymru) 2009

**Tramgwyddau, cosbau a darpariaethau arbed**

**3.**—(1) Mae person sy'n torri neu'n peidio â chydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheoliad EC a bennir ym mharagraff (2), fel y'u darllenir ar y cyd â'r trefniadau trosiannol a gynhwysir yn Erthygl 18 ac Erthygl 24, yn euog o dramgwydd.

(2) Y darpariaethau a grybwyllir ym mharagraff (1) yw—

(a) Erthygl 4 (cyfyngu ar osod ar y farchnad a defnyddio ensymau bwyd nad ydynt ar y rhestr y darperir ar ei chyfer yn Erthygl 17);

(b) Erthygl 5 (gwahardd rhoi ar y farchnad ensymau bwyd nad ydynt yn cydymffurfio, neu fwydydd sy'n cynnwys ensymau o'r fath);

(c) Erthygl 10(1) (gofynion o ran labelu ensymau bwyd a pharatoadau nas bwriedir ar gyfer eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol);

(ch) Erthygl 12(1) (gofynion o ran labelu ensymau bwyd a pharatoadau a fwriedir ar gyfer eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol); a

(d) Erthygl 14 (1) a (2) (gofyniad i ddarparu gwybodaeth benodedig i'r Comisiwn).

(3) Mae unrhyw un a geir yn euog o dramgwydd o dan baragraff (1) yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.